



Grant *Eich Dyfodol* Academi Cyflogadwyedd Abertawe 2018/19

Enw'r Gymdeithas:

1. Rhowch fanylion am eich digwyddiad, gan nodi'r dyddiad, pwy rydych yn gobeithio denu a sut bydd y fformat yn hwyluso rhwydweithio. Rhestrwch unrhyw gymdeithasau eraill sy'n trefnu'r digwyddiad ar y cyd â chi a manylion am unrhyw siaradwyr neu sefydliadau allanol rydych yn bwriadu eu gwahodd i'r digwyddiad hwn.
2. Beth yw manteision y digwyddiad i fyfyrwyr, cyflogwyr neu sefydliadau eraill sy'n ymwneud ag ef? Sut mae'r rhain yn berthnasol i ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd a/neu gyfleoedd rhwydweithio?
3. Sut byddwch yn cynnal y rhwydweithiau rydych yn eu datblygu ac annog aelodau'r gymdeithas/myfyrwyr sy'n ei fynychu i ddatblygu eu rhwydweithiau? (e.e. digwyddiadau dilynol, blogiau, LinkedIn)
4. Sut byddwch yn marchnata'r digwyddiad? Â phwy byddwch yn cysylltu (e.e. Undeb y Myfyrwyr, Colegau/Adrannau'r Brifysgol, cyrff proffesiynol allanol ayb)?
5. Faint o arian rydych yn gwneud cais amdano? At ba ddiben caiff hwn ei ddefnyddio? Rhowch fanylion y cyfanswm a sut byddwch yn gwneud yn iawn am unrhyw ddiffyg?
6. Oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ychwanegu i gefnogi'ch cais?



Rhestr wirio Cadarnhewch:

- 20 o Fyfrwyr yn Mynychu (Isafswm)
- 1 Gwestai Allanol yn Mynychu (Isafswm)
- Rhaid i bob deunydd cyhoeddus a hyrwyddo gydnabod Cymorth Acadmi Gyflogadwyedd Abertawe, e.e. "Gyda chymorth SEA" gyda'n logo (a ddarperir isod).
- Darparu ffilmio'r digwyddiad i'w ddefnyddio ar sianeli cyfryngau cymdeithasol SEA (Facebook/Twitter/Youtube)
- Adroddiad 250 gair ar y digwyddiad gyda lluniau a gyflwynwyd i employmentzone@swansea.ac.uk



Swansea Employability Academy
Academi Cyflogadwyedd Abertawe

Llofnod _____ Dyddiad _____

(Llywydd y Gymdeithas)

Llofnod _____ Dyddiad _____

(Aelod Arall o Bwyllgor y Gymdeithas)

At ddefnydd Swyddfa SEA yn unig

Cymeradwywyd:	Blaenlythrennau:	Dyddiad:
---------------	------------------	----------



Nodiadau Arweiniad

Beth yw diben y grant?

Bob blwyddyn academiaidd, caiff holl glybiau a chymdeithasau Undeb Myfyrwyr Prifysgol Abertawe wneud cais am hyd at £100 tuag at gynnal digwyddiad sy'n cynnig budd cyflogadwyedd. Gall cymdeithasau a chlybiau gydweithio i gynnal digwyddiadau a gallant gyflwyno ceisiadau am gyllid ar y cyd. Gellir tynnu symiau rhwng £20 a £100 i lawr.

Gwneud eich Cais

Pan fydd gennych syniad clir o'ch digwyddiad, bydd angen i chi gwblhau'r ffurflen gais drosodd. Bydd rhaid i geisiadau ddangos sut mae'r gweithgaredd arfaethedig yn datblygu siliau cyflogadwyedd a/neu gyfleoedd rhwydweithio.

Os byddwch yn gwahodd pobl neu sefydliadau i'r campws fel rhan o'ch digwyddiad, bydd rhaid i chi ddarparu enwau'r siaradwyr neu'r ymwelwyr hyn fel y gallwn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â pholisi Atal y Brifysgol.

Rhaid i'r cais gael ei lofnodi a'i ddyddio gan lywydd clwb neu gymdeithas Undeb y Myfyrwyr ac un aelod arall o'r pwyllgor. E-bostiwch eich cais wedi'i gwblhau i employmentzone@abertawe.ac.uk

Byddwn yn eich hysbysu am ein penderfyniad - os ydych yn llwyddiannus, caiff arian ei drosglwyddo i gyfrif banc Undeb y Myfyrwyr i chi dynnu arian allan, yn unol â gweithdrefnau Undeb Myfyrwyr Prifysgol Abertawe, gan gadarnhau enw'r Gymdeithas rydych yn hawlio'r taliad grant o £100 ar ei rhan. Yna bydd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Abertawe'n anfonebu Academi Cyflogadwyedd Abertawe.

Gwario eich cyllid

Mae'n rhaid i chi wario'r arian at y diben a nodwyd yn eich cais ac o fewn tri mis i gael eich hysbysu am y penderfyniad ariannu, ac yn unol â gweithdrefnau ariannol Undeb Myfyrwyr Prifysgol Abertawe. Os nad ydych yn gwneud hyn, caiff yr arian ei dynnu'n ôl. Os bydd eich cynllun yn newid, ac rydych am wario'r arian ar ddigwyddiad gwahanol, mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni yn employmentzone@abertawe.ac.uk

Gofynion Ychwanegol

Mae'n rhaid i'r holl ddeunyddiau cyhoeddusrwydd a hyrwyddo gydnabod cefnogaeth SEA, e.e. 'wedi'i gefnogi gan Academi Cyflogadwyedd Abertawe' gyda'n logo (darperir hwn ar ddiwedd y ddogfen hon).

Yn dilyn y digwyddiad, rhaid i chi gyflwyno astudiaeth achos i employmentzone@abertawe.ac.uk o fewn pedair wythnos i gynnal y digwyddiad. Cewch chi benderfynu ar fformat yr astudiaeth achos hon (mae ffotograffau a fideo'n gweithio'n dda).

Lle bynnag y bod modd, bydd cynrychiolydd o'r Academi'n dod i'r digwyddiad drwy gytundeb ymlaen llaw.

Logo SEA i'w ddefnyddio ar yr holl ddeunyddiau cyhoeddusrwydd



Swansea Employability Academy
Academi Cyflogadwyedd Abertawe